# 4.0 Gwirfoddolwyr

## Gwirfoddolwyr a Budd-daliadau Lles

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Budd-daliadau a'r Rheolau
3. Problemau
4. Gwybodaeth Bellach

## Cyflwyniad

Mae'r **Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)** yn cydnabod gwerth gwirfoddoli am resymau iechyd, budd cymdeithasol ac fel ffordd o ddatblygu sgiliau a phrofiad.

Nod y canllaw hwn yw rhoi trosolwg o'r hyn y gallai fod angen i chi ei wybod, ac mae'n darparu atebion i rai o'r cwestiynau a allai fod gan fudiadau a gwirfoddolwyr.

Fodd bynnag, nid yw'n rhoi sylw i bob amgylchiad - os ydych chi, neu wirfoddolwr, yn ansicr, cysylltwch â'ch Canolfan Gwirfoddoli lleol, Cyngor ar Bopeth neu gall y gwirfoddolwr drafod ei gwestiynau â'i Hyfforddwr Gwaith neu Gynghorydd Budd-daliadau yn DWP.




Llun: Grŵp o wirfoddolwyr yn gweithio

# Budd-daliadau a'r Rheolau

Mae'r rheolau yn amrywio yn dibynnu ar y math o fudd-dal y mae'r unigolyn yn ei dderbyn, er bod rhai egwyddorion allweddol sydd yn rhaid eu hystyried.

**Rhaid bod y gwaith gwirfoddol yn cydymffurfio â diffiniad y llywodraeth:**

Yn ôl y diffiniad, gwirfoddoli yw 'pan fyddwch yn dewis rhoi eich amser a'ch egni er budd pobl eraill, heb gael eich talu am wneud'.

Mae'n bosibl gwirfoddoli gydag unrhyw fath o fudiad, gan gynnwys:

- Elusennau
- Mudiadau gwirfoddoli neu grwpiau cymunedol
- Mudiadau sector cyhoeddus, e.e. y GIG, yr heddlu neu wasanaethau cyhoeddus eraill
- Mentrau cymdeithasol
- Busnesau lleol

Nid yw'n cyfri fel gwaith gwirfoddol os ydy'r unigolyn:

- Yn helpu aelod o'r teulu
- Yn derbyn arian, ar wahân i dreuliau allan o boced
- O dan gytundeb i wneud y gwaith (nid yw hynny'n cynnwys unrhyw 'gytundeb gwirfoddoli' sydd gennych)

**Rhaid i wirfoddolwyr hysbysu eu Hyfforddwr Gwaith neu Gynghorydd Budd-daliadau os ydynt yn bwriadu dechrau gwirfoddoli** – Mae'n ofynnol i hawlwyr budd-daliadau hysbysu eu cynghorydd budd-daliadau o'u bwriad i ddechrau gwirfoddoli.

## Treuliau

Yr unig dreuliau y gall gwirfoddolwyr eu derbyn yw treuliau allan o boced, hynny yw, treuliau hanfodol er mwyn galluogi iddynt wirfoddoli, er enghraifft costau teithio, prydau bwyd wrth wirfoddoli, costau gofal ac ati.

I gael rhagor o wybodaeth am dreuliau gwirfoddolwyr, gweler y Daflen Wybodaeth:
**4.13 Treuliau Gwirfoddolwyr**

Dylai'r mudiad gasglu derbynebau gan y gwirfoddolwr ac ad-dalu'r union gyfanswm a wariwyd. Mae hyn yn golygu, os oes angen, y gall y gwirfoddolwr ddangos i'w Gynghorydd Budd-daliadau mai ad-daliad oedd unrhyw arian y derbyniodd, ac nid taliad.

Os yw'r gwirfoddolwr yn derbyn gwobrau ariannol y tu hwnt i dreuliau allan o boced, gellir cyfri hynny fel incwm, a bydd yn atebol am dreth, a gall effeithio ar y budd-daliadau y mae'r gwirfoddolwr yn eu derbyn. Os ydyn nhw'n byw gyda rhieni neu bartner, gallai eu budd-daliadau nhw gael eu heffeithio os ydyn nhw'n derbyn arian, neu unrhyw beth arall ar ben treuliau, y gellid eu hystyried yn daliad.

Gall fod yn ddefnyddiol i wirfoddolwyr gael llythyr gan y mudiad perthnasol, yn amlinellu'r treuliau neu unrhyw daliadau eraill y maen nhw'n eu derbyn, natur y gwaith gwirfoddol a sut y gellir cysylltu â nhw wrth iddynt wirfoddoli. Mae'n dderbyniol i wirfoddolwyr gael eu talu 'ymlaen llaw' am unrhyw wariant a ragwelir.

**Dolen Allanol**
Darllenwch arweiniad y llywodraeth ar wirfoddoli, hawliau a threuliaus
[Llywodraeth y DU - Canllawiau Treuliau Gwirfoddoli (Saesneg yn unig)]

## Budd-daliadau Penodol

### Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)

Dylai gwirfoddolwyr hysbysu eu **Hyfforddwr Gwaith neu Gynghorydd Budd-daliadau** a bod yn agored os ydynt yn bwriadu dechrau gwirfoddoli. Efallai bod gwirfoddolwyr wedi cytuno ar gynllun unigol; er enghraifft, os yw'r gwirfoddolwr yn derbyn JSA, efallai bydd ganddo ymrwymiad hawlydd y cytunwyd arno gyda'i hyfforddwr gwaith a allai nodi tasgau a gweithgareddau penodol i'w cwblhau.

Trwy hysbysu'r **Hyfforddwr Gwaith** cyn dechrau gwirfoddoli, gallai'r gwaith gwirfoddol fod yn rhan o'r cynllun hwn. Trwy fethu â dilyn cynllun a gytunwyd arno, efallai bydd y gwirfoddolwr yn cael ei gosbi am fethu â chyflawni ei ymrwymiadau.

### Credyd Cynhwysol

Gall gwirfoddolwyr barhau i wirfoddoli os ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol, cyhyd â'u bod nhw hefyd yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau, megis chwilio am swydd, hyfforddiant neu ofynion eraill, a nodwyd gan yr ymgynghorydd. Mae hyn yn debygol o fod yn rhan o ymrwymiad hawlydd.

## Beth yw'r Gofynion Hyn?

Pan fydd unigolyn yn mynychu Canolfan Byd Gwaith am y tro cyntaf, bydd y cynghorydd yn penderfynu pa un o'r pedwar grŵp y bydd yn cael ei roi ynddo, yn dibynnu ar ei anghenion a'i amgylchiadau. Er enghraifft:

- Os nad yw'n gallu gweithio oherwydd salwch neu anabledd, neu os oes ganddo blentyn o dan un flwydd oed, ni fydd ganddo unrhyw ofynion cysylltiedig â gwaith
- Os mai ef yw unig neu brif ofalwr plentyn rhwng un a phum mlwydd oed, bydd disgwyl iddo fynychu cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith er mwyn cadw mewn cysylltiad â byd gwaith a gwella'i gyfleoedd o ddod o hyd i waith
- Os oes ganddo allu cyfyngedig i weithio, oherwydd salwch neu anabledd, efallai y bydd angen iddo ymgymryd â gweithgareddau i baratoi ar gyfer gwaith, er enghraifft hyfforddiant neu brofiad gwaith ('gofynion paratoi am waith')
- Bydd disgwyl i bawb arall wneud 'pob ymdrech resymol' i ddod o hyd i waith neu i gynyddu'r oriau maen nhw'n gweithio neu'r cyflog maen nhw'n ei dderbyn ('holl ofynion cysylltiedig â gwaith')

Bydd yr ymgynghorydd yn llunio ymrwymiad hawlydd mewn ymgynghoriad â'r unigolyn. Bydd yr ymrwymiad hwn yn nodi ym mha grŵp y bydd yr unigolyn yn cael ei osod a pha gamau, os o gwbl, y bydd disgwyl iddo eu cymryd i ddod o hyd i waith, i ddod o hyd i waith â chyflog gwell neu i gynyddu ei oriau gwaith. Bydd hefyd yn nodi beth fydd yn digwydd os na fydd yr unigolyn yn cydymffurfio â hyn (efallai bydd y cynghorydd yn gosod cosbau).

## Beth yw'r Gofynion Hyn?

Ydy, mae'n gallu cyfrannu hyd at 50% o'r amser y mae disgwyl i chi ei dreulio yn chwilio am waith, e.e. os oes disgwyl i wirfoddolwr dreulio 35 awr yr wythnos yn chwilio am waith, gallai dreulio hanner yr amser hwn yn gwirfoddoli, hynny yw, 17.5 awr. Os bydd unigolyn yn gwirfoddoli am 5 awr yr wythnos, bydd disgwyl iddo dreulio 30 awr yn chwilio am waith. Os yw'r gwirfoddolwr yn chwilio am waith rhan-amser, e.e. 16 awr yr wythnos, bydd hawl ganddo dreulio 8 awr yr wythnos yn gwirfoddoli.

**Noder**: Nid oes cyfyngiad ar faint o oriau y gall gwirfoddolwr wirfoddoli ar eu cyfer, ond bydd gofyn iddo dreulio o leiaf 17.5 awr yr wythnos yn chwilio am waith ar gyfer swyddi amser llawn.

## Gall y Cynghorydd fynnu bod unigolyn yn gwirfoddoli?

Na. Mae gwirfoddoli yn rhywbeth y mae unigolyn yn dewis ei wneud oherwydd ei fod eisiau rhoi ei amser rhydd a'i egni yn rhydd er budd eraill. Ni all unrhyw un ei orfodi i wirfoddoli na'i gyfeirio at fath penodol o waith gwirfoddol.

## Gall y cynghorydd gysylltu â'r mudiad i wirio ar gwirfoddolwr?

Na. Dyma berthynas ar wahân ac, fel mudiad, nid oes hawl gennych rannu unrhyw fanylion am y gwirfoddolwr heb ei ganiatâd.

## Beth am gyfweliadau?

Mae gan wirfoddolwyr 48 awr i fynychu cyfweliad ac un wythnos i ymateb i gynnig swydd.

## Ystyriaethau Eraill

Yn unol â'r uchod, yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd budd-daliadau yn cael eu heffeithio gan wirfoddoli, **oni bai**:

- Bod gwirfoddolwr yn derbyn lwfans cynhaliaeth
- Bod gwirfoddolwr yn gwneud rhywbeth byddai rhywun fel arfer yn cael ei dalu i'w wneud
- Bod gwirfoddolwr yn derbyn unrhyw beth ar wahân i dreuliau allan o boced (cyfrir hynny fel incwm)
- Bod gwirfoddolwr yn methu â pharchu'r 'rheolau sylfaenol' o ran derbyn ei fudd-dal penodol

**Dolen Allanol**
I gael gwybodaeth am wirfoddoli a budd-daliadau penodol eraill, trowch at Ganllaw Gwirfoddoli Cymru / DWP
Canllaw Gwirfoddoli (Saesneg yn unig)

## Problemau

Os credwch nad ymdriniwyd ag achos gwirfoddolwr yn deg neu ei fod yn cael problemau gyda budd-daliadau, cysylltwch â'ch canolfan wirfoddoli leol neu CGGC.

### Crynodeb

- Datblygwch berthynas dda gyda'ch Canolfan Byd Gwaith leol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n deall natur y gwaith gwirfoddoli.
- Codwch y mater o fudd-daliadau gyda gwirfoddolwyr presennol a newydd.
- Anogwch wirfoddolwyr i drafod eu gwaith gwirfoddol gyda'u **Hyfforddwr Gwaith**. Byddwch yn ymwybodol o'r effeithiau posibl y gall treuliau ei gael ar fudd-daliadau.

## Gwybodaeth Bellach

**Adran Gwaith a Phensiynau (Saesneg yn Unig)**
**Ffôn: 020 7712 2171**
www.dwp.gov.uk

---

**Adnoddau Gwirfoddoli**
**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
https://wcva.cymru/cy/rydw-in-gweithio-gyda-gwirfoddolwyr/

---

**Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Saesneg yn Unig)**
**Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi**
www.hmrc.gov.uk

---

**Gwirfoddoli a Budd-daliadau (Saesneg yn Unig)**
**NCVO**
www.ncvo.org.uk/ncvo-volunteering/volunteering-and-benefits

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.